OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif. 886 (Cy. 214)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Medi 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Medi 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Hydref 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 253A(2) a (3) ac adran 262(3) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Hydref 2017 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cymhwyster penodedig" ("*specified qualification*") yw cymhwyster perthnasol ac, ar y dyddiad pan fo'r person wedi ei gofnodi ar gyfer y cymhwyster hwnnw—

(a) roedd wedi ei gymeradwyo o dan adran 99 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**2**) at ddibenion adran 96 o'r Ddeddf honno;

(b) mae wedi ei gymeradwyo o dan Ran 4 o Ddeddf 2015;

(c) mae wedi ei ddynodi o dan adran 29 o Ddeddf 2015; neu

(d) mae'n deillio o gwrs addysg neu hyfforddiant sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 34(8) o Ddeddf 2015;

ystyr "darparwr dysgu" ("*learning provider*") yw person sy'n darparu addysg neu hyfforddiant a ddatblygwyd i ddiwallu anghenion person sy'n 16 oed ac yn hŷn y ceir cyllid amdani neu amdano gan Weinidogion Cymru;

ystyr "Deddf 2009" ("*the 2009 Act*") yw Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009;

(**1**) 2009 p. 22; mewnosodwyd adran 253A gan adran 79 o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (p. 26). Diwygiwyd adran 253A gan adran 58 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5), a pharagraff 9 o Atodlen 4 iddi.

(**2**) 2000 p. 21; diddymwyd adran 99 gan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, adran 58, Atodlen 4, paragraff 3(1), (5).

ystyr "Deddf 2015" ("*the 2015 Act*") yw Deddf Cymwysterau Cymru 2015(**3**).

**Amgylchiadau rhagnodedig**

**3.** Mae rheoliad 5 yn rhagnodi'r amgylchiadau at ddibenion adran 253A(2) o Ddeddf 2009 pan gaiff Gweinidogion Cymru neu goladydd gwybodaeth ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr.

**4.** Mae rheoliadau 6 a 7 yn rhagnodi'r amgylchiadau at ddibenion adran 253A(2) o Ddeddf 2009 pan gaiff person ac eithrio Gweinidogion Cymru neu goladydd gwybodaeth ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr.

**5.** Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3 yw bod yr wybodaeth yn ymwneud ag unigolyn sydd, neu a oedd, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig.

**6.** Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 4 pan fo'r wybodaeth i gael ei darparu i Weinidogion Cymru neu goladydd gwybodaeth yw—

(a) bod yr wybodaeth yn ymwneud ag unigolyn sydd, neu a oedd, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig; a

(b) bod Gweinidogion Cymru neu'r coladydd gwybodaeth wedi gofyn am yr wybodaeth honno.

**7.** Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 4 pan fo'r wybodaeth i gael ei darparu i berson rhagnodedig neu gategori rhagnodedig o berson yw—

(a) bod yr wybodaeth yn ymwneud ag unigolyn sydd, neu a oedd, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig; a

(b) o ran yr unigolyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef—

(i) ei fod, neu yr oedd, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â'r person sy'n darparu'r wybodaeth; neu

(ii) ei fod, neu oedd ei fod wedi, ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant gyda'r person sy'n darparu'r wybodaeth.

**Gwybodaeth ragnodedig am fyfyrwyr**

**8.** Mae'r disgrifiad o wybodaeth am fyfyrwyr a bennir yn Atodlen 1 wedi ei ragnodi at ddibenion adran 253A(2) o Ddeddf 2009.

**Personau rhagnodedig a chategorïau rhagnodedig o bersonau**

**9.**—(1) Mae'r personau yn Rhan 1 o Atodlen 2 wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 253A(2)(c) o Ddeddf 2009.

(2) Mae'r categorïau o bersonau yn Rhan 2 o Atodlen 2 wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 253A(2)(d) o Ddeddf 2009.

(**3**) 2015 dccc 5.

*Alun Davies*
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru.

7 Medi 2017

## ATODLEN 1

Rheoliad 8

### Gwybodaeth ragnodedig am fyfyrwyr

**1.** Ar gyfer pob unigolyn sy'n ceisio, wedi ceisio neu wedi cael cymhwyster penodedig, yr wybodaeth a ganlyn—

(a) cyfenw;

(b) enw cyntaf, neu bob enw cyntaf, os oes mwy nag un;

(c) rhyw;

(d) dyddiad geni;

(e) grŵp ethnig;

(f) cyfeiriad cartref a chod post;

(g) rhif unigryw'r dysgwr a ddyrannwyd i unigolyn gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu(**4**);

(h) y cymwysterau perthnasol neu'r cymwysterau rheoleiddiedig, os oes rhai, sydd gan yr unigolyn wrth ymrestru neu gofrestru â'r darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig;

(i) y dyddiad pan gofrestrodd, neu pan ymrestrodd, yr unigolyn â darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig.

**2.** Enw a chyfeiriad y darparwr dysgu y mae'r unigolyn, neu yr oedd yr unigolyn, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru ag ef.

**3.** Ar gyfer pob cymhwyster penodedig y mae unigolyn yn ei geisio, wedi ei geisio, neu wedi ei gael—

(a) enw'r cymhwyster;

(b) y cod adnabod unigryw a ddyrannwyd i'r cymhwyster gan Gymwysterau Cymru(**5**);

(c) y radd y mae darparwr dysgu neu goladydd gwybodaeth yn rhag-weld y bydd unigolyn yn ei chael cyn sefyll unrhyw arholiad neu asesiad sy'n arwain at y cymhwyster;

(d) y radd, os oes un, a gafwyd;

(e) enw a chyfeiriad y ganolfan arholi a rhif y ganolfan arholi, a ddyrannwyd gan y person sy'n dyfarnu'r cymhwyster, y safwyd unrhyw arholiad neu asesiad sy'n arwain at y cymhwyster ynddi;

(f) y dyddiad pan gofnodwyd unigolyn ar gyfer arholiad neu asesiad sy'n arwain at y cymhwyster;

(g) y dyddiad pan ddyfarnwyd y cymhwyster;

(h) y rhif unigryw a ddyrannwyd i unigolyn sy'n ceisio'r cymhwyster gan y person sy'n dyfarnu'r cymhwyster.

---

(**4**) Cynhelir y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu gan yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau.
(**5**) Mae Cymwysterau Cymru yn gorff corfforaethol a sefydlwyd gan adran 2 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

ATODLEN 2 — Rheoliad 9

Personau rhagnodedig a chategorïau rhagnodedig o bersonau

# RHAN 1

## Personau rhagnodedig

Y Cyd-Gyngor Cymwysterau(**6**)

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru(**7**)

Career Choices Dewis Gyrfa Limited (rhif cofrestru'r cwmni 07442837)

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru(**8**)

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr(**9**)

Cymwysterau Cymru

Yr Ysgrifennydd Gwladol

Y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau(**10**)

Universities and Colleges Admissions Service (rhif cofrestru'r cwmni 02839815)

Student Loans Company Limited (rhif cofrestru'r cwmni 02401034)

Higher Education Statistics Agency Limited (rhif cofrestru'r cwmni 02766993)

# RHAN 2

## Categorïau rhagnodedig o bersonau

Darparwr dysgu

Personau sydd, at ddiben hybu addysg neu lesiant myfyrwyr yng Nghymru, yn—

(a) cynnal gwaith ymchwil neu ddadansoddi;

(b) ynhyrchu ystadegau;

(c) darparu gwybodaeth, cyngor neu ganllawiau;

ac y mae angen gwybodaeth am fyfyrwyr arnynt at y diben hwnnw.

---

(**6**) Mae'r Cyd-Gyngor Cymwysterau yn gwmni buddiannau cymunedol sy'n gyfyngedig drwy warant.

(**7**) Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wedi ei benodi drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2005 (p. 18).

(**8**) Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn gorff corfforaethol a sefydlwyd o dan adran 62 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13).

(**9**) Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr yn gorff corfforaethol a sefydlwyd o dan adran 62 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

(**10**) Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau yn gorff corfforaethol a sefydlwyd gan adran 127 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r personau a'r categorïau o bersonau y caiff person yng Nghymru ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr iddynt. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhagnodi'r math o wybodaeth am fyfyrwyr y caniateir iddi gael ei rhannu a'r amgylchiadau pan ganiateir i'r wybodaeth honno gael ei rhannu.

Mae rheoliadau 3 i 7 yn rhagnodi'r amgylchiadau pan ganiateir i wybodaeth am fyfyrwyr gael ei rhannu.

Mae rheoliad 5 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru neu goladydd gwybodaeth ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr i'r llall, i berson rhagnodedig neu i gategori rhagnodedig o berson os yw'r wybodaeth honno yn ymwneud â pherson sydd, neu a oedd, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig.

Mae rheoliad 6 yn darparu y caiff person ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr i Weinidogion Cymru neu goladydd gwybodaeth os yw'r wybodaeth honno yn ymwneud â pherson sydd, neu a oedd, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig a bod Gweinidogion Cymru neu goladydd gwybodaeth wedi gofyn am yr wybodaeth honno.

Mae rheoliad 7 yn darparu y caiff person (ac eithrio Gweinidogion Cymru neu goladydd gwybodaeth) ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr i berson rhagnodedig neu gategori rhagnodedig o berson os yw dau amgylchiad wedi eu bodloni. Rhaid i'r wybodaeth ymwneud â pherson sydd, neu a oedd, wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â darparwr dysgu at ddiben cael cymhwyster penodedig. Yn ogystal, mae'r person, neu roedd y person, y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef wedi ymrestru neu wedi ei gofrestru â'r person sy'n darparu'r wybodaeth; neu mae'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant, neu wedi ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant, gyda'r person sy'n darparu'r wybodaeth.

Mae cymhwyster penodedig yn gymhwyster perthnasol sy'n gymwys i gael cyllid gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 neu Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Mae rheoliad 8 ac Atodlen 1 yn rhagnodi'r wybodaeth am fyfyrwyr y caniateir iddi gael ei darparu.

Mae rheoliad 9 ac Atodlen 2 yn rhagnodi'r personau a'r categorïau o bersonau y caniateir i wybodaeth gael ei darparu iddynt.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.